Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad thematig Estyn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru: Gwerth Gwaith Ieuenctid

**Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn**
**Ymateb Llywodraeth Cymru**

| |
|---|
| **Teitl yr adroddiad:** Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru: Gwerth Gwaith Ieuenctid |
| **Manylion yr adroddiad**<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog Addysg i Estyn ar gyfer 2017-2018, lle gofynnwyd i Estyn gynnal arolwg o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2018 yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y byddai'n dechrau datblygu ffordd strategol newydd o weithio ym maes gwaith ieuenctid yng Nghymru a hynny wrth i'r gwaith o recriwtio ar gyfer y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro fynd rhagddo. Cytunwyd felly y byddai'r ymateb i'r adroddiad yn cael ei oedi hyd nes y byddai'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu ymhellach ac i adael digon o amser i'r canfyddiadau gael eu hystyried a'u cynnwys. Cyhoeddwyd Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ar gyfer Cymru ar 25 Mehefin 2019. |
| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**<br><br>Ceir 16 o brif ganfyddiadau yn yr adroddiad ac fe'u crynhoir isod:<br><br>1 Mae gan bob unigolyn ifanc hawl i gymorth ansawdd uchel trwy waith ieuenctid. Mae hyn yn eu helpu i gael mynediad i weithgareddau y tu allan i addysg ffurfiol, meithrin cyfeillgarwch, a dysgu medrau newydd. Lle bo angen cymorth arnynt hefyd sy'n eu helpu i ddeall eu dewisiadau bywyd gall gweithwyr ieuenctid proffesiynol roi'r cymorth hwn iddynt.<br><br>2 Mae'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed a mwyaf ymylol yn wynebu anawsterau niferus yn ogystal, gan gynnwys tlodi, cam-fanteisio rhywiol, materion iechyd meddwl, a digartrefedd. Bydd gweithwyr ieuenctid sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn treulio amser i feithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda nhw er mwyn meithrin datblygiad personol y bobl ifanc hyn, meithrin eu hyder a'u gwydnwch.<br><br>3 Mae llawer o ddeddfwriaeth a pholisi yng Nghymru, yn y DU, ac yn ehangach yn Ewrop sy'n sail i amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael i bob unigolyn ifanc ac nid oes strategaeth gyffredinol ar gyfer cynllunio, darparu neu ariannu gwasanaethau, ac nid oes un weledigaeth glir a rennir ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.<br><br>4 Mae'r math o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n cael eu darparu yng Nghymru wedi newid ers cyhoeddi cyfarwyddyd a chanllawiau Ymestyn Hawliau yn 2002. Bu dirywiad o ran y ddarpariaeth ieuenctid |

draddodiadol mynediad agored sydd ar gael, a gwaith yn y gymuned a gwaith ar y stryd. Bu cynnydd cyfatebol mewn gwaith ymyrryd targedig, yn seiliedig ar atgyfeiriadau, gyda phobl ifanc.

5 Mynychir darpariaeth ieuenctid mynediad agored gan bobl ifanc yn wirfoddol, ac yn fras maent yn seiliedig ar anghenion wedi'u pennu gan y bobl ifanc eu hunain. Mae llawer o'r gwasanaethau a ddarperir yn awr yn canolbwyntio ar unigolion neu grwpiau er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion penodol er mwyn bodloni agenda polisi cenedlaethol, yn hytrach nag ar anghenion wedi'u nodi gan y bobl ifanc, yn arbennig pobl ifanc o dan 18 oed.

6 Mae'r newid mewn pwyslais i ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed wedi arwain at lawer o'r bobl ifanc yn methu cael y cymorth sydd ei angen arnynt os nad ydynt wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau sy'n gallu eu hatgyfeirio.

7 Er bod egwyddorion craidd Ymestyn Hawliau yn berthnasol o hyd nid yw'r nifer fawr o ddatblygiadau polisi newydd wedi rhoi digon o ystyriaeth i hawliadau a hawliau pob unigolyn ifanc i gael gwasanaethau. Mae'r amrywiaeth eang o flaenoriaethau wedi gwanhau gallu darparwyr gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau yn effeithlon ac ar y cyd.

8 Mae toriadau mewn adnoddau wedi effeithio hefyd ar alluoedd awdurdodau lleol i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau cymorth ieuenctid gan ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl ifanc drwy weithio gyda phobl ifanc. Pan fydd cyllid wedi'i glymu wrth ddeilliannau caled, fel cymwysterau cydnabyddedig, mae hyn yn fwy cymhleth pan fo angen cymorth personol sylweddol ar y bobl ifanc cyn y gallant ddechrau ar raglenni dysgu. Er hynny, mae gweithwyr ieuenctid wedi dangos gwydnwch a'r gallu i addasu, a chymhwyso egwyddorion craidd gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth o leoliadau.

9 Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi'u datblygu'n aml ar sail adweithiol nad yw'n sicrhau bod cydraddoldeb mynediad i wasanaethau mynediad agored na gwasanaethau targedig. Hefyd, ceir diffyg cydraddoldeb o ran darpariaeth gwasanaethau ar draws yr ystod oedran llawn o 11 i 25.

10 Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol i ddarparu pob math o wasanaethau ond nid yw wedi'i gynnwys yn ddigonol gan lywodraeth leol mewn prosesau cynllunio er bod y sector gwirfoddol yn cyflawni llawer o'r gwaith ieuenctid mynediad agored hwn bellach.

11 Mae mecanweithiau cenedlaethol a lleol ar waith ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc, ond nid yw'n eglur pa mor dda y mae hyn yn arwain at lais pobl ifanc yn cael ei glywed wrth i'r gwasanaethau hyn gael eu llywio a'u harfarnu.

12 Ceir diffyg eglurder ymhlith darparwyr gwasanaeth ynglŷn â'r derminoleg a ddefnyddir. Mae'r term 'gwaith ieuenctid' yn cael ei ddrysu'n aml â 'gwaith gyda phobl ifanc'. Mae gwaith ieuenctid yn

cyfeirio at fethodoleg broffesiynol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc yn seiliedig ar set glir o werthoedd a ategir gan natur wirfoddol y berthynas rhwng yr unigolyn ifanc a'r gweithiwr ieuenctid. Yn aml, ceir dryswch rhwng hyn â'r lleoliadau lle caiff ei ddarparu ac â gwaith cyffredinol gyda phobl ifanc pan na fydd unrhyw agwedd gefnogol neu addysgol.

13 Mae gwaith ieuenctid yn ffordd broffesiynol, fedrus o weithio sy'n gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu pobl ifanc fel unigolion. Mae mynediad at weithiwr ieuenctid yn aml yn chwarae rhan allweddol i gynorthwyo pobl ifanc sydd â rhwystrau niferus rhag dysgu hyd yn oed mewn amgylchedd ysgol. Nid yw mynediad at weithiwr ieuenctid ar gael bob amser ac nid oes cymaint o waith ieuenctid yn cael ei wneud mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

14 Nid oedd cyfraniad pwysig cynllunio ar gyfer datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid wedi'i gynnwys yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2014-2018.

15 Nid oes strategaeth effeithiol i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fel arfer, mae darpariaeth mynediad agored yn cael ei darparu gan y sector gwirfoddol, ond ychydig o wasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog sydd i'w cael, ac yn arbennig, ceir diffyg gwasanaethau cymorth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

16 Mae'r modd y caiff gwasanaethau cymorth ieuenctid eu dwyn i gyfrif am y gwaith a wnânt yn aneglur. Roedd cyflwyno'r Marc Safon ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn gam positif, fodd bynnag nid yw'n eglur sut y caiff hawliau pobl ifanc a gynhwyswyd yn Ymestyn Hawliau eu cyflawni, ac nid yw effaith y gwasanaethau ar bobl ifanc wedi'i harfarnu'n dda.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr yn ogystal ag argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ymdrinnir â'r rhain ar wahân isod.

**Argymhellion ar gyfer Darparwyr ac Awdurdodau Lleol**

**Argymhellion 1 – 4 Dylai awdurdodau lleol:**

**Argymhelliad 1:** Ymgynghori'n ystyrlon gyda phobl ifanc, fel eu bod yn gallu dylanwadu ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau sydd ar gael iddynt ar lefel leol, a'u harfarnu

**Argymhelliad 2:** Darparu mannau diogel i bobl ifanc mewn ardaloedd lleol fel bod ganddynt fynediad at wasanaethau, a gweithgareddau, sy'n cynorthwyo'u datblygiad fel unigolion, ac fel aelodau o'u cymuned leol

**Argymhelliad 3:** Gwneud yn siŵr bod cynlluniau strategol yn cynnwys blaenoriaethau clir wedi'u llywio gan wybodaeth leol ar gyfer gwasanaethau

| |
|---|
| sy’n cynorthwyo pobl ifanc<br><br>**Argymhelliad 4:** Gwneud yn siŵr bod adrannau awdurdod lleol a chyrff eraill yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, sy’n mynd i’r afael â’u hanghenion<br><br>**Argymhellion 5 – 7 Dylai darparwyr:**<br><br>**Argymhelliad 5:** Wneud yn siŵr bod eu gwasanaethau yn galluogi pobl ifanc i<br><br>nodi drostyn nhw eu hunain beth yw eu diddordebau, eu nodau, a’u hanghenion<br><br>**Argymhelliad 6:** Gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol i wella mynediad at yr ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc<br><br>**Argymhelliad 7:** Gwneud yn siŵr bod safonau ac egwyddorion gwaith ieuenctid proffesiynol yn cael eu defnyddio gan weithwyr yn yr holl brosiectau gwasanaeth cymorth ieuenctid<br><br><u>Bydd Llywodraeth Cymru:</u><br><br>Yn gweithio gyda darparwyr, awdurdodau lleol, a’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim i helpu i fwrw ymlaen â gweithgareddau yn unol â’r argymhellion hyn. Cafodd ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ar gyfer Cymru ei datblygu ar y cyd â phobl ifanc a’r sector a bydd ganddynt rôl bwysig i’w chwarae yn sicrhau y caiff ei chyflwyno. Mae’r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu mewn modd ystyrlon â phobl ifanc, gweithio mewn partneriaeth a chynllunio’n strategol er mwyn darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid safonol i bobl ifanc yng Nghymru.<br><br>Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn parhau i weithio â phobl ifanc a’r sector wrth gynllunio a darparu gweithgareddau a fydd yn ategu ac yn helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth. |
| **Argymhellion 8 -11 Dylai Llywodraeth Cymru**<br><br>**Argymhelliad 8**<br><br>Darparu’r sylfaen polisi ar gyfer ymgorffori gwaith ieuenctid, fel ffordd o weithio gyda phobl ifanc, yn yr holl wasanaethau<br><br><u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u><br><br>**Derbyn**: Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd Cymru yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru - y bydd yn hygyrch ac yn gynhwysol: y bydd yn cael ei werthfawrogi a’i ddeall; y bydd yn cefnogi gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n wirfoddol neu’n gweithio am dâl er mwyn gwella eu harferion fel y gall pobl ifanc ffynnu. Yn benodol mae sicrhau bod |

‘gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a’i ddeall’ yn holl bwysig os yw gwaith ieuenctid i gael ei ymgorffori yn yr holl wasanaethau. Yn yr un modd, bydd cymorth ar gyfer y rhai hynny sy’n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn dysgu ac elwa ar agweddau ar waith ieuenctid yn allweddol. Dyma’r rhesymau y mae’r Strategaeth newydd yn ein rhwymo i ddatblygu Cynllun Cyfathrebu a Marchnata ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru a Chynllun Datblygu’r Gweithlu.

**Argymhelliad 9.**

Dylai Llywodraeth Cymru: Egluro’r defnydd o’r derminoleg ‘gwaith ieuenctid’, ‘gwasanaeth ieuenctid’, a ‘gwasanaethau cymorth ieuenctid’ yng Nghymru er mwyn darparu iaith a ddeellir yn gyffredinol ar gyfer datblygu a chyflawni polisi

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn:** Drwy’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn ystyried datblygu model cynaliadwy at y dyfodol er mwyn ei gweithredu. Rhan o’u gwaith, a fydd yn cael ei roi ar waith gyda phobl ifanc a’r sector, fydd ystyried rolau, cyfrifoldebau a therminoleg ar bob haen yn y system.

**Argymhelliad 10.**

Dylai Llywodraeth Cymru: Sefydlu ffyrdd o ddwyn awdurdodau lleol a’u partneriaid i gyfrif am ansawdd, ystod a’r mathau o wasanaethau cymorth ieuenctid a ddarparant yn eu hardal

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn**: Yn 2019/20 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru Meini Prawf Cynllun a Thelerau ac Amodau’r Grant Cymorth Ieuenctid er mwyn cryfhau atebolrwydd, y broses o wneud penderfyniadau a’r gwaith o gynllunio a chyflwyno’r gwasanaethau gwaith ieuenctid a chymorth ieuenctid hynny sy’n cael eu hariannu drwy’r grant.

Yn ychwanegol at hynny, mae’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn ein rhwymo i dreialu a chyflwyno model i sefydlu lefelau digonol o waith ieuenctid yn lleol yn ogystal â chryfhau’r mecanweithiau atebolrwydd ar bob haen ar draws gwasanaeth ieuenctid unedig.

**Argymhelliad 11.**

Dylai Llywodraeth Cymru: Gynnwys cymhwyster, hyfforddiant a datblygiad parhaus gweithwyr ieuenctid yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn**: Mae’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd yn cynnwys 5 nod. Un ohonynt yw bod ‘*gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n wirfoddol neu’n*

| |
|---|
| *gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer*'. Bydd y Cynllun Gweithredu sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2019 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r amserlenni i wireddu'r weledigaeth hon, gan gynnwys Cynllun Datblygu'r Gweithlu a fydd wedi'i anelu at gefnogi a gwella hyfforddiant cychwynnol a datblygiad parhaus gweithwyr ieuenctid yng Nghymru. |
| **Manylion cyhoeddi**<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2018 a gellir ei weld isod:<br><br>https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwasanaethau-cymorth-ieuenctid-yng-nghymru?_ga=2.5624755.1672690916.1566894139-756264253.1558006689 |

ISBN digidol 978-1-83933-178-7

© Hawlfraint y Goron 2019
WG38893